UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru

Amodau Gwaith

Amser Cynllunio Paratoi ac Asesu

UCAC | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

www.athrawon.com

Amser Cynllunio Paratoi ac Asesu

Ers 1 Medi 2005, mae gan bob athro'r hawl statudol i amser digyswllt yn ystod amserlen addysgu'r ysgol, ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu.

Rheolau CPA

Mae'r rheolau am amser CPA (*PPA*) yn y *School Teachers' Pay and Conditions Document* yn hollol glir:

- Mae gan bob athro sydd ar gytundeb parhaol, tymor penodedig, dros dro neu ran amser ac sy'n gweithio o dan amodau'r STPCD, hawl cytundebol i amser CPA. Mae hyn yn cynnwys y Pennaeth ac athrawon digyswllt sydd yn gweithio i AALl.
- Mae'r sefyllfa i athrawon cyflenwi yn dibynnu ar natur a hyd eu cyflogaeth yn yr ysgol. Dylai pob athro sy'n gorfod cynllunio a pharatoi gwersi ac asesu gwaith disgyblion, dderbyn amser CPA. (Cred UCAC y dylai ysgolion sicrhau'r un telerau i athrawon sydd yn gweithio trwy asiantaeth.)
- Dylai'r amser CPA gyfateb i o leiaf 10% o amser addysgu arferol yr athro. **Isafswm yw'r 10%**.
- Os oedd athro'n derbyn mwy na 10% o amser CPA cyn i'r rheol ddod i rym, ni ddylai fod lleihad yn yr amser hwn.
- Dylai unrhyw amser digyswllt arall, e.e. amser arweinyddiaeth neu reolaethol, amser ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu sydd heb ei warantu, ac ati, fod yn ychwanegol at yr amser CPA swyddogol.
- Dylid trefnu bod athrawon yn derbyn cyfnodau CPA yn rheolaidd, fel rhan o amserlen arferol yr ysgol, h.y. bob wythnos neu bythefnos ac yn ystod amser addysgu arferol yr ysgol. Dylid nodi'r cyfnod CPA ar amserlen yr athro.
- Dylai pob cyfnod CPA barhau am o leiaf 30 munud. (Cred UCAC bod sesiynau hirach yn fwy buddiol.)
- Ni ddylid defnyddio amser CPA i gyflenwi yn ystod absenoldeb athro arall.
- Yr athro ei hun ddylai benderfynu ar ei flaenoriaethau o ran cynllunio, paratoi ac asesu yn ystod y cyfnod; ni ddylai'r Pennaeth benderfynu pa waith y dylid ei gyflawni.

- Mae hawl gan athrawon ar y cyd i benderfynu defnyddio'r amser, ar adegau, ar gyfer cyd-gynllunio.

- Mae hawl gan Athrawon Newydd Gymhwyso sydd yn y broses o gwblhau eu Cyfnod Sefydlu, dderbyn amserlen sydd â llai o gyfnodau dysgu, h.y. dim mwy na 90% o amser addysgu arferol yr ysgol. Mae ganddynt yr hawl i gyfnodau CPA sy'n cyfateb i 10% o'r amserlen ostyngol hon.

Cyngor ar weithredu'r rheolau

- Mae gweithredu'r gofyniad am amser CPA wedi bod yn fwy o her i ysgolion cynradd, gan fod y mwyafrif o athrawon uwchradd yn derbyn rhywfaint o amser digyswllt yn barod. Y Pennaeth sy'n gyfrifol am sicrhau bod y disgyblion yn derbyn addysg o safon yn ystod cyfnodau CPA athrawon. Cred UCAC mai'r ffordd i sicrhau hyn yw cyflogi athro i wneud y gwaith addysgu ar gyfer pob gwers yn yr ysgol. Mae modd, hefyd, sicrhau bod gweithgareddau amrywiol ysgol gyfan yn digwydd ar adegau arbennig er mwyn rhyddhau athrawon ar gyfer amser CPA, ond ni ddylai hyn effeithio'n negyddol ar ddarparu'r cwricwlwm.

- Mae'r amser CPA'n digwydd yn ystod amser cyfeiriedig yr athro (*directed time*). Er nad oes hawl gan y Pennaeth benderfynu beth ddylai'r athro ei wneud yn ystod y cyfnod, gall y Pennaeth ddisgwyl i'r athro fod yn bresennol yn yr ysgol i gyflawni'r gwaith CPA. Serch hynny, awgryma UCAC y dylai fod elfen o hyblygrwydd, yn enwedig gan ystyried fod prinder lle addas i gael llonydd i weithio mewn rhai ysgolion yn golygu nad oes modd gwneud defnydd effeithiol o'r amser.

- Yn ôl y cytundeb, nid oes hawl lleihau neu ad-drefnu'r 10% amser CPA oherwydd gweithgareddau eraill. Petai athro'n colli amser CPA oherwydd diwrnod HMS neu weithgaredd arall ar ran yr ysgol cred UCAC y dylai'r ysgol sicrhau bod modd derbyn amser CPA ar adeg arall. Dylai'r amser CPA hwn gyfateb i 10% o'r amser addysgu sy'n weddill ar gyfer yr wythnos honno.

- Mae'r un peth yn wir am ychydig ddiwrnodau o salwch, ond, mewn achos o salwch hirdymor nid oes angen "talu'n ôl", e.e. os yw'r athro wedi bod yn absennol am gyfnod cylch cyfan amserlen yr ysgol (naill ai wythnos gyfan neu bythefnos, neu hirach).

- Mae UCAC yn pwysleisio bod yr amser CPA yn amser sydd wedi'i ddiogelu ac felly ni all ysgol ddisgwyl i athrawon wneud trefniadau ar gyfer ymweliadau meddygol angenrheidiol ar yr adeg yma, er hwyluso pethau i'r ysgol.

Mae UCAC yn ymwybodol iawn o'r heriau ariannol sydd yn wynebu ysgolion, a'r ffaith bod angen staff ychwanegol, yn enwedig yn y sector cynradd, er mwyn diwallu'r gofynion cytundebol hyn. Mae UCAC yn parhau i frwydro am arian ychwanegol ar gyfer gweithredu gofynion y Cytundeb Llwyth Gwaith. Byddai UCAC yn croesawu'ch sylwadau am weithredu gofynion CPA (neu unrhyw elfen o'r cytundeb llwyth gwaith) yn eich ysgol.

Serch hynny, mae'n rhaid pwysleisio bod UCAC yn gwrthwynebu'r defnydd o Gynorthwywyr Dosbarth i gymryd cyfrifoldeb am ddosbarth tra bod yr athro yn cael amser CPA. Cred UCAC mai rôl athro yw addysgu ac mai rôl cynorthwywr yw cynorthwyo. Nid cyfrifoldeb yr athro, chwaith, yw paratoi gwersi na marcio gwaith y mae'r disgyblion yn ei gyflawni yn ystod ei gyfnodau CPA.

Dyma restr o swyddogion cyflogedig UCAC – mae croeso mawr i chi gysylltu â nhw am gyngor pellach:

- Elaine Edwards, Ysgrifennydd Cyffredinol - elaine@athrawon.com
- Eryl Owain, Swyddog Maes y Gogledd – eryl@athrawon.com
- Dilwyn Roberts-Young, Swyddog Maes y De – dilwyn@athrawon.com
- Rebecca Williams, Swyddog Polisi – rebecca@athrawon.com

Neu ffoniwch swyddfa UCAC ar 01970 639950.

Mai 2009

Nodiadau

Nodiadau

UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru

Prif Swyddfa UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth,
Ceredigion SY23 2EU

ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | ucac@athrawon.com

www.athrawon.com